30. TÂN
(stori o'r Ivory Coast)

Ers iddynt briodi bu Bart ac Eugenie yn byw gyda'u perthnasau. Nawr, o'r diwedd, cawsant dŷ iddynt eu hunain. Gyda'i waliau plaen o frics a'r to sinc yr oedd ymhell o fod yn balas. Ond i Bart yr oedd yn baradwys.

Nid oedd pennaeth y teulu am iddynt adael y cartref teuluol. 'Y mae ysbrydion drwg yn trigo'r ochr draw i'r ffordd,' rhybuddiodd. 'Draw yn fan acw, chewch chi ddim lwc dda.'

Byddai'n well petai wedi arbed ei anadl. Gan fod Bart ac Eugenie yn Gristnogion nid oeddent yn poeni dim am ysbrydion blin eu tymer. Gerllaw'r tŷ brics di-nod, roedd Bart wedi adeiladu adeilad arall – eglwys syml ac iddi waliau o goed, to pren a meinciau. 'Dowch i'r tŷ gweddi,' meddai wrth estyn gwahoddiad i'w ffrindiau a'i deulu bob bore Sul.

Ac yna, fel mae'n digwydd weithiau, pan ymddengys na all dim fynd o'i le, daw helynt annisgwyl.

Darganfu Bart fod yn rhaid iddo gael llawdriniaeth. Nawr, fyddai neb yn croesawu newydd o'r fath, ond i ffermwr a enillai ei fywoliaeth trwy lafur caled yr oedd y posibilrwydd o orfod bod yn segur am fisoedd lawer yn llawer gwaeth. Ac os nad oedd hynny'n ddigon drwg, ar ben y cwbl yr oedd eu merch Benedicte'n wael hefyd.

Mae'n debyg y gallwch ddyfalu beth oedd ymateb y pentrefwyr ofergoelus pan glywsant am helyntion Bart. 'Mae'r ysbrydion wedi

gwylltio. Dyna pam mae Bart yn cael cymaint o lwc ddrwg.'

Mae byw mewn pentref braidd yn debyg i fyw mewn powlen pysgodyn aur. Mae pawb yn gwylio'i gilydd. Ac nawr roedd llygaid pawb ar Bart ac Eugenie. Beth fyddent yn ei wneud nesaf? A fyddent yn ceisio cymodi â'r ysbrydion yr oeddent wedi eu gwylltio? A fyddent yn mynd i weld y dyn hysbys? Neu efallai glymu darn bychan o edau ddu o amgylch garddwrn y plentyn gwael i gadw ymaith yr ysbrydion drwg? Na, dim o'r fath.

Cynhaliwyd gwasanaethau ar y Sul yn y tŷ fel arfer. Gwnaeth Bart hi'n amlwg mai'r unig bŵer ysbrydol fyddai ef yn troi ato oedd y Duw Cristnogol.

Y cwestiwn nesaf: Beth fyddai Duw Bart yn ei wneud? Ni welodd y pentrefwyr busneslyd ddim byd arbennig i ddechrau. Ond, yn raddol, dechreuodd Benedicte wella. Ac yn araf daeth ychydig o nerth Bart yn ôl iddo. 'Arhoswch chi,' meddai'r pentrefwyr yn flin. 'Fe ddaw rhagor o helyntion i'w poeni.'

Ac fe ddaeth – heb unrhyw arwydd – ar brynhawn tawel ym mis Mawrth. Yr oedd Eugenie newydd ddychwelyd o'r blanhigfa goco ac wrthi'n cynnau'r tân i goginio swper pan welodd ei llysfab, Aubin, yn rhedeg i fyny'r ffordd i'w chartref. Doedd prin awr ers iddi ei adael ef a'i frawd Huberson oedd yn gweithio ar y coed coco. Nawr roedd Aubin yn ymladd am ei wynt ac yn chwys diferol.

'Tân! Tân!' gwaeddodd.

Dyna un gair oedd yn peri arswyd i bob ffermwr. Byddai tân yn y coed yn sicr o ddifa popeth a safai yn ei ffordd. Gallai'r coed coco a gymerodd flynyddoedd i dyfu gael eu dinistrio mewn munudau.

Daeth Aubin â'r newydd fod y gwair tal oedd o fewn hanner milltir i'r blanhigfa ar dân a bod Huberson yn ceisio cadw'r tân rhag cyrraedd y coed coco ar ei ben ei hunan bach. Gydag ochenaid ddiamynedd rhuthrodd Bart a'i wraig allan o'r tŷ. Dim ond ychydig wythnosau oedd ers ei lawdriniaeth. Yr oedd yn rhy wan i gerdded i lawr y llwybr heb sôn am ymladd y tân.

Wedi cyrraedd y blanhigfa wynebwyd Eugenie gan olygfa ddychrynllyd. Roedd y tân fel anghenfil barus: mwg du'n bytheirio, fflamau coch yn saethu i'r awyr, gan lowcio rhannau o'r perthi sych wrth ruthro am eu cnwd.

Roedd dauŵr oedd yn ffermio gerllaw bron ag anobeithio'n llwyr. Credent na ellid rhwystro'r tân. Safai'r ddau'n ddiymadferth a sarrug

wrth wylio'r cyfan. Ond roedd Eugenie'n un a ymladdai i'r eithaf. 'Torrwch ystod,' gwaeddodd, gan dorchi ei sgert a mynd ati fel lladd nadroedd i docio'r gwair tal oedd yn ymylu'r blanhigfa. Roedd torri ystod yn golygu clirio stribed o wair yr holl ffordd o amgylch y blanhigfa gan obeithio na fyddai'r tân yn ysgubo dros y tir moel.

Siawns wan oedd o lwyddo – a gwyddai Eugenie hynny.

Aeth munudau heibio. Âi'r rhuo'n fwy byddarol, poethai'r fflamau ac roedd y mwg yn fwy trwchus. Ond eto daliodd Eugenie ati i docio'n orffwyll, gan wrthod ildio.

'Gad i ni weld beth all dy Iesu ei wneud i ti!' gwaeddodd un o'r ffermwyr uwchlaw'r gyflafan.

'Os gall dy Iesu arbed y blanhigfa fe wnawn ni droi'n Gristnogion!' llefodd ffermwr arall.

O fewn eiliadau neu funudau (doedd Eugenie ddim yn siŵr) fe gymerodd Duw drosodd. Yn sydyn, newidiodd popeth. Gostegodd y gwynt. Cyrhaeddodd ei meibion a'u ffrindiau a rhai gweithwyr o'r ysgol i'w helpu i docio'r gwair. Ond digwyddodd mwy na hynny – rhywbeth gwyrthiol. Arafodd y tân a dechreuodd golli ei nerth er ei fod ychydig eiliadau'n gynharach yn rhuo'n ddidrugaredd ar eu gwarthaf. Am yr ugain munud nesaf gweithiodd ei ffordd tuag atynt hyd nes, ychydig fetrau oddi wrth blanhigfa Bart, stopiodd yn stond a marw allan.

Wel, byddech wedi disgwyl gweld yn y capel y Sul canlynol ambell un o'r rhai fu'n gwawdio Eugenie. Ond ni ddaeth yr un ohonynt ar gyfyl y lle. Fodd bynnag, mae'n debyg iddynt glywed canu, lleisiau llawen yr ugain o bentrefwyr a ddaeth i gredu yng Nghrist. Efallai hyd yn oed eu bod wedi clywed Bart yn pregethu. Hyd yn oed os na chlywsant, yr oedd un peth yn sicr. Yr oedd ffydd Bart ac Eugenie wedi gwneud argraff ar yr holl bentref. A'r Sul hwnnw roedd y pâr priod yn moli Duw â'u holl galon.

HYD: 5 munud

NEGES: Mae modd gwneud argraff ar anffyddwyr pan fo Cristnogion yn sefyll yn gadarn yn wyneb unrhyw anhawster. Pa fath o argraff a wna ein ffydd ni?

DARLLEN: Actau 16: 16–34